**Cofnodion heb eu Cadarnhau**
**o Gyfarfod Sesiwn Gyhoeddus Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**
**Iechyd Cyhoeddus Cymru - Rhan B**
**(Perfformiad a Gwella GIG Cymru)**
**7 Mai 2026, drwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | |
| Kate Young | (KY) | Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol, Trydydd Sector |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Digidol a Data |
| Catherine Purcell | (CP) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Prifysgol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Cenedlaethol Ymchwil, Data a Digidol |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Chris Clayton | (CC) | Rheolwr Cyfarwyddwr Perfformiad a Gwella GIG Cymru |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr (wedi gadael am 12:30) |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Katrina Febry | (KF) | Archwilio Cymru |
| Sophie Fuller | (SF) | Perfformiad a Gwella GIG Cymru |
| Ian Kent | (IK) | Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol |
| Blake Rennie | (BR) | Rheolwr Archwilio, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Neil Stoodley | (NS) | Pennaeth Cyllid Dros Dro |
| Martin Veale | (MV) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Steve Wyndham | (SW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Bree Gatica-Wilcox | (BG-W) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Agorodd y Cyfarfod am 11:17 | | |

Heb eu Cadarnhau

| ACGC 1/2026.05.07 | Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb |
|---|---|

Agorodd KY y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol. Nododd bod y cyfarfod wedi'i gynnal yn electronig.

Croesawodd KY CC i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y byddai'r cofnodion wedi'u cytuno yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi 2026.

| ACGC 2/2026.05.07 | Datganiadau o Fuddiant |
|---|---|

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn ychwanegol i'r rhai a ddatgelwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant.

| ACGC 3/2026.05.07 | Perfformiad a Gwella GIG Cymru (Perfformiad a Gwella GIG Cymru |
|---|---|
| ACGC 3.1/2026.05.07 | Perfformiad a Gwella GIG Cymru - Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol Chwarterol |

Cyflwynodd CC Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol Chwarterol Perfformiad a Gwella GIG Cymru a oedd yn cwmpasu'r cyfnod 1 Chwefror i 31 Mawrth 2026, ac a oedd yn ymdrin â meysydd cydymffurfio: Rheoli Risg, Archwilio a Chaffael, Cydymffurfiaeth Atal Twyll a Llywodraethu Gwybodaeth.

Amlygodd CC:

- Roedd y broses rheoli risg yn parhau i gael ei mireinio, roedd un risg bresennol yn ymwneud â llywodraethu yn parhau i gael ei thrafod gyda chydweithwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond roedd cynnydd yn cael ei wneud.
- Roedd gweithgaredd archwilio yn mynd ymlaen yn dda ac roedd yn parhau ar y trywydd iawn.
- Nid oedd unrhyw weithgarwch atal twyll parhaus i'w adrodd i'r Pwyllgor.
- Nodwyd un toriad caffael.
- Roedd hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn gwneud cynnydd da ond roedd yn parhau i fod yn faes i'w wella'n barhaus.
- Roedd y gwaith o ddatblygu capasiti a gallu sefydliadol yn parhau i gael ei ddatblygu.

Nododd CC nad oedd unrhyw feysydd arwyddocaol yr oedd angen eu huwchgyfeirio i'w dwyn i sylw'r Pwyllgor.

Atgoffwyd y Pwyllgor fod cyfarfod Sicrwydd Blynyddol ar gyfer Perfformiad a Gwella GIG Cymru gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i gynnal bythefnos ynghynt, a chadarnhaodd fod mwy o sefydlogrwydd bellach yn amlwg yn nhrefniadau sicrwydd Perfformiad a Gwella GIG Cymru. Cydnabu'r Pwyllgor y cynnydd a wnaed wrth integreiddio'r adrannau a'r sefydliadau a oedd yn bodoli eisoes dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chytunodd fod cerrig milltir diweddar yn dangos bod y trefniadau'n gweithio'n dda.

Heb eu Cadarnhau

Nododd y Pwyllgor bwysigrwydd deall ei rôl i gefnogi a herio Perfformiad a Gwella GIG Cymru. Byddai cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 9 Mehefin gyda'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, MV, PV a TC yn diffinio rôl y Pwyllgor yn glir i sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn glir ac yn effeithiol.
***Noder:*** *Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor, newidiwyd dyddiad 9 Mehefin i 19 Mehefin 2026.*

**Nododd** y Pwyllgor:

- gynnwys yr adroddiad hwn a derbyniodd sicrwydd bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer y cyfnod 1 Chwefror – 31 Mawrth 2026:

**Rheoli Risg (Chwarterol)**

- Cymerwyd **sicrwydd** bod proses rheoli risg effeithiol o fewn Perfformiad a Gwella GIG Cymru.
- Cymerwyd **sicrwydd** bod unrhyw risg a nodwyd gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi'i huwchgyfeirio'n briodol.

**Gweithgarwch Archwilio a Chaffael (Chwarterol)**

- **Nodwyd** bod cynllun archwilio Perfformiad a Gwella GIG Cymru ar gyfer 2025/26 wedi'i adrodd ar wahân.
- **Nodwyd** bod un archwiliad mewnol wedi'i gyhwyn yn ystod y cyfnod adrodd.
- **Nodwyd** bod un toriad archwilio yn cael ei adrodd ar gyfer y cyfnod.

**Cydymffurfiaeth Atal Twyll (Chwarterol)**

- **Nodwyd** nad oedd unrhyw weithgarwch Atal Twyll wedi'i adrodd i Berfformiad a Gwella GIG Cymru yn ystod y cyfnod adrodd.

**Cydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth (Chwarterol)**

- Cymerwyd **sicrwydd** bod Perfformiad a Gwella GIG Cymru wedi cydymffurfio â Pholisi a phrosesau Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran Llywodraethu Gwybodaeth.
- Cymerwyd **sicrwydd** bod unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth a oedd yn cynrychioli risg reoleiddiol i Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael ei reoli'n briodol.

Heb eu Cadarnhau

| ACGC 3.2/2026.05.07 | Datganiad Sicrwydd Blynyddol |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor Ddatganiad Sicrwydd Blynyddol Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

Esboniodd PV fod y Pwyllgor wedi derbyn Datganiad Sicrwydd Blynyddol gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru i sicrhau bod y trefniadau cynnal yn cydymffurfio â'r Cylch Gorchwyl.

Roedd y Cytundeb Cynnal, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2026, yn nodi'r Fframwaith Llywodraethu a'r Atodlen Sicrwydd, gan gynnwys y Datganiad Sicrwydd Blynyddol. Cynhaliwyd cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwella GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 26 Medi 2025 a 19 Mawrth 2026 i adolygu trefniadau llywodraethu, a chadarnhaodd PV ei fod yn cyfarfod â SF bob pythefnos i reoli'r cytundeb ac uwchgyfeirio unrhyw doriadau posibl.

Cyflwynodd CC y Datganiad Sicrwydd Blynyddol a dywedodd fod Perfformiad a Gwella GIG Cymru mewn sefyllfa resymol, gan adlewyrchu ei gam datblygu ac ymrwymiad ei staff. Nododd y byddai gwaith pellach yn cryfhau systemau a phrosesau. Gwahaniaethodd rhwng risgiau corfforaethol y Sefydliad a'r risgiau ehangach o ddylanwadu ar welliant ar draws GIG Cymru, gan bwysleisio mai ei gyfrifoldeb uniongyrchol oedd gweithredu'n effeithiol a chael ei lywodraethu'n dda, tra bod amcanion ehangach o fewn ei ddylanwad yn hytrach na'i reolaeth. Rhoddodd adroddiadau Archwilio Mewnol sicrwydd rhesymol ar risg a rheolaeth ariannol, heb unrhyw ganfyddiadau arwyddocaol. Nododd CC hefyd fod cyllidebu ar sail sero, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn Chwarter 2 a 3 ochr yn ochr â rhewi recriwtio swyddi gwag, wedi cyfrannu at danwariant uwch na'r disgwyl. Rhoddodd sicrwydd y byddai ailgynllunio sefydliadol yn cefnogi rheoli cyllidebau effeithiol yn y flwyddyn i ddod.

Nododd y Pwyllgor, er bod lefelau cydymffurfiaeth hyfforddiant statudol yn foddhaol, fod y sefyllfa arfarnu yn anfoddhaol ac yn faes allweddol o bryder. Cadarnhaodd CC fod ailosodiad o'r broses werthuso flynyddol ar y gweill, ochr yn ochr â darn ehangach o waith ar ganlyniadau a diwylliant arolygon staff.

Cadarnhaodd CC fod newidiadau i barhad busnes, yn enwedig o ran capasiti, ar y gweill i gryfhau gwaith y Sefydliad. Cadarnhaodd fod gwaith parhaus mewn perthynas â chydymffurfiaeth â'r iaith Gymraeg ac yn cynnwys ymgysylltu parhaus â chyrff allanol.

I gloi, sicrhaodd CC y Pwyllgor fod y sefyllfa gyffredinol gyda Pherfformiad a Gwella GIG Cymru yn parhau i fod yn un o sicrwydd rhesymol gyda meysydd cryfder clir wedi'u dangos ochr yn ochr â meysydd sydd angen datblygiad a sylw pellach.

Nododd y Pwyllgor y cyfyngiadau ariannol sydd ar GIG Cymru gyfan ar hyn o bryd ac atgoffodd CC fod cefnogaeth ar gael gan gydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Nododd** y Pwyllgor y Datganiad Sicrwydd Blynyddol.

Diolchodd KY i PV am y cyflwyniad a roddodd fwy o eglurder i'r Pwyllgor gan gymryd sicrwydd ynghylch y Cytundeb Cynnal a diolchodd i CC am y diweddariadau.

| **ACGC 3.3/2026.05.07** | **Perfformiad a Gwella GIG Cymru, Archwilio Mewnol** |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Perfformiad a Gwella GIG Cymru ac Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Rheoli Risg Perfformiad a Gwella GIG Cymru.

**Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol:**
Hysbysodd PD y Pwyllgor fod yr adroddiad yn manylu ar y gwaith Archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, y byddai Adroddiad Archwilio Mewnol Caffael yn cael ei gwblhau yn yr wythnos nesaf a bod y Cynllun Gwaith ar gyfer 2026/27 wedi'i gytuno.

**Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Rheolaeth Ariannol (Sicrwydd Sylweddol):**
Wrth gyflwyno'r Adroddiad, cynghorodd PD fod ganddo sicrwydd sylweddol ac nad oedd unrhyw ganfyddiadau i'w hadrodd i'r Pwyllgor.

| | |
|---|---|
| **Nododd** y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Perfformiad a Gwella GIG Cymru ac Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol Rheolaeth Ariannol. | |
| **ACGC 3.4/2026.05.07** | **Er Gwybodaeth** |
| **Nododd** y Pwyllgor Gofrestr Cytundebau Perfformiad a Gwella GIG Cymru, Mawrth 2026. | |
| **ACGC 4/2026.05.07** | **Gweinyddiaeth i gloi** |
| Diolchodd y Cadeirydd i CC ac SF.<br><br>Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.<br><br>**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:**<br><br>3 Medi 2026<br><br>Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â Rhan B y cyfarfod i ben. | |
| Daeth y Cyfarfod i ben am 11:40 | |

Heb eu Cadarnhau

**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu Cadarnhau**
**Cyfarfod Sesiwn Gyhoeddus y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**
**Rhan A**
**23 Mawrth 2026 drwy Microsoft Teams**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | | |
| Kate Young | (KY) | Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol, Trydydd Sector |
| Nick Elliott | (NE) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Digidol a Data |
| Catherine Purcell | (CP) | Cyfarwyddwr Anweithredol, Prifysgol |
| **Yn Bresennol:** | | |
| Iain Bell | (IB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Cenedlaethol Ymchwil, Data a Digidol |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Pippa Britton | (PB) | Cadeirydd y Bwrdd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Katrina Febry | (KF) | Archwilio Cymru |
| Danielle Gething | (DG) | Pennaeth Rheoli Risg (Ar gyfer eitem 9) |
| Ian Kent | (IK) | Pennaeth Adrodd a Rheoli Ariannol |
| Blake Rennie | (BR) | Rheolwr Archwilio, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig |
| Neil Stoodley | (NS) | Pennaeth Cyllid Dros Dro |
| Martin Veale | (MV) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Paul Veysey | (PV) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Steve Wyndham | (SW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | | |
| Claire Birchall | (CB) | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig |
| Bree Gatica-Wilcox | (BG-W) | Cynrychiolydd Ochr Staff |
| Agorodd y Cyfarfod am 11:50 | | |

Heb eu Cadarnhau

| **ACGC 5/2026.05.07** | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb** |
|---|---|

Nodwyd yr ymddiheuriadau am absenoldeb a oedd wedi dod i law.

| **ACGC 6/2026.05.07** | **Datganiadau o Fuddiant** |
|---|---|

Nododd y Pwyllgor fod pob Cyfarwyddwr Gweithredol a Chyfarwyddwr Anweithredol wedi'u crybwyll yn yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol (Eitem 7.2).

| **ACGC 7/2026.05.07** | **Adroddiad Blynyddol** |
|---|---|
| **ACGC 7.1/2026.05.07** | **Adroddiad Atebolrwydd** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Atebolrwydd.

Amlinellodd PV y broses adrodd flynyddol, gan nodi bod yr Adroddiad Blynyddol yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd a'r Datganiadau Ariannol. Cadarnhaodd fod yr Adroddiad Perfformiad wedi'i gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol ar 6 Mai ac y byddai'n ffurfio'r Adroddiad Blynyddol i'r cyhoedd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf. Ystyriodd y Pwyllgor yr Adroddiad Atebolrwydd, gan gynnwys yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol, yr Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff, ac Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Senedd Cymru. Nododd y Pwyllgor hefyd fod y cyfrifon drafft wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru ar 1 Mai, ac y byddai'r Adroddiad Atebolrwydd a'r dogfennau ategol yn cael eu cyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ar 8 Mai cyn eu cyflwyno'n derfynol. Byddai'r adroddiadau terfynol yn dychwelyd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin cyn eu hargymell i'r Bwrdd ar 25 Gorffennaf 2026.

Croesawodd y Pwyllgor gynnwys statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd y Sefydliad a nododd fod 34% o'r staff bellach yn aelodau o Rwydweithiau Staff, a oedd yn adlewyrchu'r cynnydd mewn diwylliant, hunaniaeth a chynhwysiant.

Mynegodd y Pwyllgor bryder bod cyfanswm allyriadau'r Sefydliad a adroddwyd wedi cynyddu 18% flwyddyn ar ôl blwyddyn. Esboniodd IB fod y fethodoleg adrodd sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru wedi newid ac nad oedd y cynnydd ymddangosiadol a welwyd yn gymhariaeth uniongyrchol o flwyddyn i flwyddyn â'r flwyddyn flaenorol. Awgrymwyd y byddai angen llinell sylfaen fewnol fwy cyson i olrhain cynnydd ochr yn ochr â newidiadau i fethodoleg adrodd yn y dyfodol.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft a'r Adroddiad Taliadau i'w cyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru.

Diolchodd KY i bawb a oedd yn gyfrifol am gydlynu'r Adroddiadau

| **ACGC 7.2/2026.05.07** | **Datganiadau Ariannol Blynyddol 2021/22** |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Datganiad Ariannol Blynyddol.

Cyflwynodd NS y Datganiadau Ariannol Blynyddol gan nodi eu bod wedi'u cyflwyno a bod Archwiliad y Cyfrifon yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

Rhoddodd IK gyflwyniad manwl i'r Pwyllgor gyda throsolwg o:

- y broses a statws yr Archwiliad.

Heb eu Cadarnhau

- Cyflawni targedau allweddol gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau ariannol.
- Roedd y ddyletswydd ariannol i adennill costau dros y tair blynedd flaenorol wedi'i chyflawni.
- Meysydd allweddol i'w nodi o ran y gwariant gweithredu gan gynnwys cynnydd cyffredinol o flwyddyn i flwyddyn o £12.98 miliwn (4.91%).
- Crynodeb o sut yr aethpwyd i'r afael â'r ddau fater a gododd yn archwiliad y llynedd a throsolwg o'r camau cywirol a gymerwyd ym mhroses cyfrifon 2024/25.
- Y camau nesaf a chadarnhad o'r amserlenni ar gyfer y gwaith Archwilio a'r gefnogaeth a'r gymeradwyaeth ddilynol gan y Pwyllgor a'r Bwrdd.

Diolchodd TC, KY a'r Pwyllgor i NS ac IK am eu gwaith caled a fformat clir y cyflwyniad.

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Cyfrifon Drafft 2025/26 a nodi bod y rhain wedi'u cyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru ar 1 Mai 2026 a chymerodd **sicrwydd** bod y Datganiadau Blynyddol 2025/26 wedi'u drafftio yn unol â'r gofynion perthnasol fel y'u nodir gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Fawrhydi.

| | |
|---|---|
| **ACGC 8/2026.05.07** | **Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol** |
| **ACGC 8.1/2026.05.07** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol, Adroddiadau Archwilio Mewnol Terfynol a Drafft Barn Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2025/26** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwiliad Mewnol Terfynol Cronfa Risg Cymru (Sicrwydd Sylweddol) a Drafft Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2026/27.

**Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol**
Hysbysodd PD y Pwyllgor fod y ddau Adroddiad Archwilio Mewnol terfynol ar gyfer 2025/26, Adolygiad o lwybrau cleifion a Rhybuddio am ddigwyddiadau ac achosion o ran diogelu iechyd, wedi'u cyhoeddi ar ffurf Drafft. Roedd yr holl waith maes ar gyfer 2025/26 wedi'i gwblhau ac roedd gwaith maes ar gyfer 2026/27 wedi'i gynllunio.

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol.

**Adroddiad Archwilio Mewnol Cronfa Risg Cymru (Sicrwydd Sylweddol)**
Wrth gyflwyno'r Adroddiad, hysbysodd BR y Pwyllgor fod tri honiad wedi cael eu hymchwilio, ond nad oedd unrhyw ganfyddiadau allweddol na Chamau Rheoli wedi'u codi yn yr Adroddiad.

**Nododd** y Pwyllgor Adroddiad Archwilio Mewnol Cronfa Risg Cymru (Sicrwydd Sylweddol).

**Barn ac Adroddiad Blynyddol Drafft y Pennaeth Archwilio Mewnol 2025/26**
Cyflwynodd PD Farn ac Adroddiad Blynyddol Drafft y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Adroddiad Blynyddol 2025/26 i'r Pwyllgor. Roedd y farn ddrafft yn rhoi sicrwydd rhesymol cyffredinol, ac yn dangos bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar gyfer y meysydd a adolygwyd wedi'u cynllunio'n addas a'u cymhwyso'n effeithiol ar draws y Sefydliad.

Heb eu Cadarnhau

Wrth gadarnhau bod ei dîm yn cydymffurfio â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, cynghorodd PD fod pum Adroddiad Sicrwydd Sylweddol a saith Adroddiad Sicrwydd Rhesymol wedi'u cyhoeddi. Ni chyhoeddwyd unrhyw Adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig nac Anfoddhaol yn ystod y flwyddyn. Roedd gwaith dilynol bob amser yn cael ei wneud yn chwarter olaf y flwyddyn a byddai'n cael ei gyhoeddi yn fersiwn derfynol yr Adroddiad.

Diolchodd y Pwyllgor i PD.

**Nododd** y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Drafft a'r Adroddiad Barn a chymerodd **sicrwydd** ohonynt.

| **ACGC 8.2/2026.05.07** | **Archwilio Allanol** |
|---|---|

Cyflwynodd SW ddiweddariad Archwilio Cymru, a hysbysodd y Pwyllgor fod y cyfrifon a'r holl ddogfennau ategol wedi'u derbyn ar amser a bod eu hansawdd yn foddhaol, cynghorodd y Pwyllgor fod y gwaith archwilio wedi mynd rhagddo'n dda, bod yr ymgysylltiad cynnar â'r Tîm Cyllid yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi galluogi profion i ddechrau'n gynnar a rhagwelwyd y byddai'r Archwiliad wedi'i gwblhau mewn da bryd i adrodd i'r Pwyllgor ym mis Mehefin.

Rhoddodd KF y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar y rhaglen archwilio perfformiad, gan gynnwys gwaith heb ei wneud o gynlluniau Archwilio'r blynyddoedd blaenorol. Roedd yr adolygiad o Fuddsoddi mewn Systemau Digidol o gynllun archwilio 2024 wedi'i gynllunio i'w gyflwyno i'r cyfarfod Pwyllgor hwn ond nid oedd ar gael mewn pryd a hysbysodd y Pwyllgor fod yr adroddiad bron â'i gwblhau a byddai'n cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn ystod y pythefnos i dair wythnos nesaf. Cadarnhaodd fod Adroddiad arall sydd heb ei gwblhau o gynllun Archwilio 2025, sef yr Adolygiad o Wasanaethau Sgrinio, yn parhau ar y trywydd iawn. Disgwylid iddo gael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi.

Rhoddodd KF y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar waith yng Nghynllun Archwilio 2026, cadarnhaodd fod gwaith cwmpasu wedi dechrau ar yr Adolygiad Diabetes, gyda gweithgaredd a oedd yn canolbwyntio ar rôl arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth wrth atal a rheoli diabetes. Nododd ymhellach fod gwaith cysylltiedig yn cynnwys Byrddau Iechyd hefyd yn cael ei gwmpasu. Byddai'r ail eitem o fewn Cynllun Archwilio 2026, Asesiad Strwythuredig, yn cael ei diwygio ar gyfer y flwyddyn. Cytunwyd y byddai'r Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn cael eu hysbysu wrth i gynlluniau gael eu datblygu ymhellach.

Nododd y Pwyllgor fod yr Archwiliad Systemau Digidol wedi'i gwblhau, cydnabu'r oedi cyn cyhoeddi'r Adroddiad a chroesawodd ddiweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Nododd** y Pwyllgor y diweddariad gan Archwilio Cymru a diolchodd i SW a KF.

| **ACGC 8.3/2026.05.07** | **Traciwr Argymhellion Archwilio** |
|---|---|

Cyflwynodd LB yr Adroddiad Olrhain Argymhellion Archwilio ac amlygodd:

- Y sefyllfa bresennol o ran cynnydd a gweithredu camau rheoli sy'n deillio o argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol.

Heb eu Cadarnhau

- Roedd yr adroddiad clawr yn cynnwys crynodeb o'r newidiadau a wnaed ochr yn ochr â'r rhesymau dros y newidiadau a sgoriau RAG ar gyfer camau gweithredu heb eu cwblhau a oedd yn dangos y tebygolrwydd o broblemau posibl.
- Caewyd saith cam gweithredu, ychwanegwyd pedwar cam gweithredu newydd at y Traciwr a chyhoeddwyd estyniadau i bedwar cam gweithredu yn dilyn trafodaethau yn y Tîm Arweinyddiaeth, manylwyd ar y rhain yn y cyflwyniad.

Cymerodd y Pwyllgor:

- **sicrwydd** ynghylch y cynnydd gyda gweithredu camau gweithredu yn deillio o Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- **Nodwyd** y bydd y camau gweithredu sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella (QSIC), y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol (PODC) a'r Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Gwella (KRIC) yn cael eu tynnu allan a'u cyflwyno i'r Pwyllgorau pan fyddant yn cyfarfod nesaf ar 4 Mehefin ac 16 Gorffennaf ac 16 Mehefin 2026 yn y drefn honno.
- **Nodwyd** nad oedd unrhyw Gamau Gweithredu agored i adrodd amdanynt yn Sesiwn Breifat y Pwyllgor hwn ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| **ACGC 9/2026.05.07** | **Risg** |
| **ACGC 9.1/2026.05.07** | **Y Gofrestr Risg Gorfforaethol** |

Cyflwynodd SS yr eitem, gan nodi'r drafodaeth yn ystod y cyfarfod blaenorol a amlygodd yr angen i gryfhau'r broses adolygu a chraffu ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a gynhaliwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth (LT). Roedd angen mwy o sicrwydd i sicrhau bod perchnogion a thrinwyr risg yn rheoli eu camau lliniaru yn effeithiol a bod y rhain yn cael eu hadlewyrchu'n gywir mewn sgoriau risg a bod y Tîm Arweinyddiaeth yn defnyddio craffu priodol.

Dywedodd fod yr arsylwadau hyn wedi cael eu nodi a bod rhaglen o ymchwiliadau manwl i Risgiau Corfforaethol wedi dechrau. Roedd hyn yn cynnwys gwella'r defnydd o system adrodd risg Datix, ei chadw'n gyfredol, a chryfhau prosesau uwchgyfeirio a dad-ddwysáu. Byddai'r gwelliannau sy'n deillio o hyn yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor ym mis Medi.

Cyflwynodd DG y Gofrestr Risg Gorfforaethol a nododd newidiadau i'r sgoriau risg ar gyfer risg gorfforaethol 1758, yn ymwneud â tharfu posibl ar wasanaethau o fewn rhaglen Bron Brawf Cymru a risg 2003, yn ymwneud â'r Sefydliad yn methu â chyrraedd ei darged sero net erbyn 2030, roedd y ddau sgôr risg wedi gostwng yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf.

Cymerodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheolaeth y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn y sefydliad.

Diolchodd KY i SS a DG.

| | |
|---|---|
| **ACGC 10/2026.05.07** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
| **ACGC 10.1/2026.05.07** | **Cofnodion Rhannau A a B 26 Mawrth 2026 a'r Cofnod Gweithredu** |

**Ystyriodd** y Pwyllgor Gofnodion Rhannau A a B o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2026 a Chofnodion Gweithredu Rhan A a Rhan B.

Heb eu Cadarnhau

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor**:**

- gofnodion 23 Mawrth 2026 Rhannau Agored A a B
- cau saith Cam Gweithredu ar Gofnod Camau Gweithredu Rhan A
- cau un Cam Gweithredu ar Gofnod Camau Gweithredu Rhan B

| **ACGC 11/2026.05.07** | **Er Gwybodaeth** |
|---|---|
| **ACGC 11.1/2026.05.07** | **Cyllid, Caffael ac Atal Twyll** |

Dim.

| **ACGC 11.2/2026.05.07** | **Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol** |
|---|---|

Dim.

| **ACGC 11.3/2026.05.07** | **Rheoli Risg** |
|---|---|

**Ystyriodd** y Pwyllgor y Gofrestr Risg Strategol lawn er gwybodaeth, a **nododd** fod y risg strategol wedi'i thrafod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn (SRR 6) yn y sesiwn breifat.

| **ACGC 11.4/2026.05.07** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
|---|---|

Dim.

| **ACGC 11.5/2026.05.07** | **Cynllun Gwaith y Pwyllgor** |
|---|---|

**Ystyriodd** a **nododd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor.

| **ACGC 12/2026.05.07** | **Gweinyddiaeth i gloi** |
|---|---|

Gofynnwyd i'r Pwyllgor roi adborth ar y cyfarfod i LB.

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor:**

<u>Cymeradwyo Cyfrifon ac argymhelliad i'r Bwrdd:</u> 23 Mehefin 2026

<u>Cyfarfod y Pwyllgor Llawn:</u> 3 Medi 2026.

**Unrhyw Fater Arall:**

Diolchodd KY i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:47